COFNODION CYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Tachwedd 8fed, 2017 am saith o'r gloch

PRESENNOL

Gwilym Hughes (Is-gadeirydd), Wyn Griffiths, John Gwilym Jones, Robert M. Jones, Dylan Llwyd, Erfyl W. Roberts, O. Hefin Roberts, William B. Williams, Cynghorwyr John B. Hughes a Dewi W. Roberts (Cyngor Gwynedd – Sylwebwyr)

YMDDIHEURIADAU

Alun Jones (Cadeirydd), Edward O. Griffith, Owi Lloyd-Jones, Catherine Ll. Morris, Andrew T. Weir

Croesawodd yr Is-gadeirydd bawb i'r cyfarfod yn absenoldeb y Cadeirydd – dymunwyd gwellhad buan iddo.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd Cynghorydd William B. Williams fuddiant yng ngheisiadau cynllunio 1. C17/0925/39/LL – Diwygio Amod 2 ar Ganiatâd Cynllunio C17/0318/39/LL er adeiladu'r datblygiad yn unol â chynlluniau diwygiedig – Tir ger Deudraeth, Aber-soch, a 5. C17/1024/39/LL – Dymchwel tŷ presennol ac chodi un tri llawr yn ei le – The Shanty, Pen Bennar, Aber-soch, gan ei fod yn berchennog tir gerllaw y ddau eiddo.

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Hydref 11eg, 2017 yn gywir.

3. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C17/0925/39/LL	Diwygio Amod 2 ar Ganiatâd Cynllunio C17/0318/39/LL er adeiladu'r datblygiad yn unol â chynlluniau diwygiedig – Tir ger Deudraeth, Aber-soch **– Cefnogir [Datgan Diddordeb – WBW]**

[Derbyniwyd eglurhad oddi wrth yr Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu, ynghyd â chopi o'r diwygiadau er nad yw'n arferol i'r Adran wneud hynny.]

C17/0964/39/RC	Diddymu Cytundeb Adran 106 sy'n rhwymo'r eiddo fel tŷ fforddiadwy angen lleol – Awel Neigwl, Sarn Bach **– Gwrthwynebir oherwydd gosodir amodau/cytundebau am reswm a byddai'n dechrau cynsail**
C17/1007/39/LL	Adeiladu caffi/bar snac glan y môr yn lle'r un presennol – The Warren, Aber-soch **– Cefnogir**
C17/1012/39/TC	**Gwybodaeth Bersonol Cynghorwyr** – Tystysgrif Cyfreithloni Defnydd i ddefnyddio adeilad fel annedd ar wahân a hunan gynhaliol – The Barn (Melin Soch), Lôn Pont Morgan, Aber-soch
C17/1024/39/LL	Dymchwel tŷ presennol a chodi un tri llawr yn ei le – The Shanty, Pen Bennar, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd gorddatblygiad sy'n gorlenwi safle amlwg ar graig a welir o bob cyfeiriad – môr a**

thir – ac sy'n anghymarus â gweddill y tai o'i amgylch. Mae'r lleoliad, hefyd, yn rhan o AHNE Llŷn ac Arfordir Treftadaeth [Datgan Diddordeb – WBW]

C17/1036/39/LL Dymchwel estyniad unllawr cefn presennol ac adeiladu estyniad deulawr cefn newydd ynghyd ag addasiadau – Berwyn, Lôn Golff, Aber-soch – **Cefnogir**

4. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus**

i) ***Lôn Traeth***

Casglwyd y seddi ychwanegol – gweler 12. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.

ii) ***Priffyrdd a Bwrdeistrefol – Toiled/au Cyhoeddus yn eich Cymuned***

Cafwyd sgwrs â Bethan Hughes, Swyddog Datblygu, a ofynnodd a fyddai modd i'r Cyngor flaenoriaethu'r toiledau ac ystyried cyfrannu hanner cost gosod peiriannau talu. Holwyd Healthmatic Ltd. am brisiau peiriannau fel sydd yn nhoiledau Lôn Traeth – £1990.00 yr un a £400.00 yr un am osod/gomisiynu. Mynegwyd pryder am y rhain oherwydd y trafferthion a gaed ond, cadarnhaodd WBW a'r Clerc na fu trafferth ers datrys y broblem clicied yn yr haf ac mae gosod arwydd TCC wedi cynorthwyo hefyd. Penderfynwyd chwilio am brisiau eraill ar gyfer cyfarfod mis Rhagfyr a hysbysu Bethan Hughes o hyn.

Adroddwyd y gofynnodd perchennog caffi Machroes am gael agor y toiledau yn y maes parcio am fis dros y Nadolig – cytunodd Cyngor Gwynedd ond am daliad o £500.00. Mynegwyd na ddylid fod wedi caniatáu caffi heb doiledau – ysgrifennir i fynegi hynny.

b) **Cae Chwarae Aber-soch**

i) ***Cae Pêl-droed***

Ni dderbyniwyd unrhyw wybodaeth na gohebiaeth bellach.

Holwyd y contractwr ffensio a fyddai modd tynnu un o baneli y ffens werdd ar gyfer mynediad pe gosodid un ar Lôn Engan – oes, sgriwiau sy'n eu dal yn eu lle. Amcanbris dwy flynedd yn ôl – tynnu y ffens bresennol a'i chlirio o'r safle yn cynnwys llogi digar a sgip (£530.00 + TAW) a chyflenwi a gosod ffens dwbl mesh tua 1.3m o uchder (£3470.00 + TAW) – ychydig yn ddrytach erbyn hyn mae'n siŵr; angen ystyried ar gyfer cyllideb y flwyddyn ariannol nesaf.

Ymchwilir i brisiau offer newydd erbyn cyfarfod mis Rhagfyr hefyd.

ii) ***Archwiliad Iechyd a Diogelwch***

Er cysylltu sawl gwaith â Melfyn Pritchard i ofyn am ei amcanbris, ni dderbyniwyd un fel yr addawodd. Deallwyd na ellid gwneud y gwaith tan fis Ebrill beth bynnag er mwyn cael tywydd sych a heulog i sychu'r paent.

c) **Clorian Cymru – Teledu Cylch Cyfyng**

- Mynegwyd siomedigaeth na fynychodd yr Heddlu gyfarfod heno – dyma'r ail fis iddynt beidio â derbyn gwahoddiad i ddod i adrodd ar blismona'r gymuned dros yr haf, yn dilyn yr hyn a gytunwyd arno yng nghyfarfod mis Gorffennaf. Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth yr Arolygydd Gethin Jones na allai ddod oherwydd ei fod yn gweithio shifftiau nos ond, ni dderbyniwyd unrhyw ymateb

oddi wrth Heddwas Gavin Hughes (anfonwyd cerdyn cydymdeimlo ato yn dilyn colli ei fam yn ddiweddar).

- Nis ymatebwyd i'r cais os cyfranna'r Heddlu at y camera newydd ychwaith.
- Arwydd – derbyniwyd llun enghreifftiol oddi wrth Ian Roberts a dywedodd mai ar banel alwminiwm a fyddai'n derfynol a'i gost tua £30.00; penderfynwyd archebu un.

ch) **Meddygfa Aber-soch**

- Penderfynwyd casglu'r ddeiseb a'i chyflwyno i'r Cyngor Iechyd Cymunedol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Llywodraeth Cymru; credir bod bron i fil wedi'i harwyddo.
- Noda'r e-bost a dderbyniwyd yr ymatebir i'r llythyr a anfonwyd at Lywodraeth Cymru parthed Ysgol Feddygol ym Mhrifysgol Bangor cyn Tachwedd 16eg – anfonwyd at Vaughan Gething trwy'i e-bost fel Aelod Cynulliad yn hytrach nag Ysgrifennydd Iechyd.
- Penderfynwyd ysgrifennu i fynegi siomedigaeth mai uniaith Saesneg yw'r teledu/monitor gwybodaeth iechyd newydd sydd ym Meddygfa Rhydbach.

d) **Gohebiaeth: 9i) Nimbus Lightning Protection Ltd. – Corn Tanrallt**
Ni dderbyniwyd yr adroddiad.

dd) **5. Coed yr Allt, Aber-soch**
Ni dderbyniwyd taliad iawndâl mis Medi y diffynnydd ond, derbyniwyd dau daliad y mis hwn yn ôl y datganiad banc a dderbyniwyd heddiw.

e) **10. Gohebiaeth: c) Adran Addysg – Llywodraethwyr Cymunedol Ychwanegol Ysgolion Gwynedd**
Ni ddymuna Cyng. William B. Williams barhau fel cynrychiolydd y Cyngor ar Gorff Llywodraethol Ysgol Aber-soch – cytunoddd Cyng. O. Hefin Roberts gymryd ei le.

f) **10. Gohebiaeth: d) Cefnogaeth Gorfforaethol – Hunan*iaith***
Penderfynwyd estyn gwahoddiad i swyddog fynychu cyfarfod mis Rhagfyr i egluro'r cynllun yn iawn.

5. **MYNWENT**

a) **Dail Tafol**
Penderfynwyd parhau â'r bwriad o chwistrellu'r dail tafol yn y gwanwyn gan mai rheol ar gyfer teuluoedd yw hi bennaf a chan na ddefnyddir y tir i gladdu dan sylw am rai blynyddoedd eto.

b) **Dyled Ymgymerwr**
Ni dderbyniwyd ymateb i'r llythyr a anfonwyd at yr ymgymerwr; penderfynwyd ysgrifennu ato eto a'i hysbysu na chaiff ganiatâd claddu yn y fynwent yn y dyfodol oherwydd na ddymuna'r Cyngor dorri rheolau y Canllawiau Cenedlaethol.

c) **Taliadau Claddu ar Gyfer Plant (Un Llais Cymru)**
Derbyniwyd holiadur parthed yr uchod – atebwyd rhai o'r cwestiynau ond, ni ellid ei gwblhau oherwydd na chododd y mater yma eto; penderfynwyd holi Cynghorau lleol eraill am yr hyn a wnânt hwy.

6. **CYFRIFON**

a) **Archwiliad 2016 – 2017**
Derbyniwyd anfoneb oddi wrth Swyddfa Archwilio Cymru – taliad llawer rhatach na'r gorffennol (gweler 12. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod).

b) **Paratoi at Gyllideb/Praesept 2018 – 2019**
Cymharwyd y gyllideb fras a baratowyd (gan nad oedd y Clerc yn hollol sicr sut oedd gwneud) at y flwyddyn ariannol bresennol ac addaswyd hi, gan ychwanegu gwariant ar y toiledau ac offer i'r ddau gae chwarae – gweler atodiad. Disgwylir ffurflen gais praesept 2018 – 2019 erbyn cyfarfod mis Rhagfyr.

c) **Archwiliwr Mewnol**
Derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth Katherine Owen, Ysgrifenyddes Cangen Clercod Gwynedd a Môn, y cytunodd Luned Fôn Jones, aelod o Dîm Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd, fod yn archwiliwr mewnol yn absenoldeb Mr. John Roberts – awgryma gysylltu â hi i drafod ffïoedd yn uniongyrchol.

7. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Rheiliau Datblygiad Pen-y-Bont, Aber-soch**
Derbyniwyd ymholiad am yr uchod ac o edrych ar Dilyn a Darganfod, gwelwyd y caniatawyd yn ddiamodol gais C17/0741/39/AC ym mis Medi, sef "Rhyddhau Amod 4 (deunyddiau) ac Amod 20 (tirlunio) o Ganiatâd Cynllunio C15/383/39/LL", h.y. gosod rheiliau yn lle tirlunio. Mynegwyd y gellid fod wedi gosod rhai mwy addurnedig o feddwl prisiau'r tai; penderfynwyd ysgrifennu i fynegi barn a gofyn beth sy'n digwydd i'r llwyni rhwng y ddau ddatblygiad.

8. **MATERION PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

a) **Biniau**
Gosodwyd y bin baw cŵn ar bolyn arwydd ffordd ar Lôn Haearn wrth fynd lawr at y traeth erbyn hyn.

b) **Y Fach – Cynllun Parcio**
Derbyniwyd ateb oddi wrth Dylan Wynn Jones, Rheolwr Uned Traffig, yn nodi nad oes problem newid mynedfa/allanfa'r gilfan, gan ychwanegu efallai y buasai'n well peidio â ffurfioli'r trefniant a gadael i bawb ei ddefnyddio fel y dewisant. Ymatebodd i'r sylw y dylid dileu'r ffi am barcio 24 awr (£7.50) drwy ddweud na chredai y gwaredai hyn ein pryderon gan mai'r tariff ond dynodi ar ba adegau sydd rhaid talu am barcio felly, mae unrhyw gyfnod tu hwnt i'r cyfnod yn ddi-dâl ac nid yn 'ddim parcio'. Nid yw'n ymwybodol y bodola trefniant o'r fath o gynnig opsiwn o hanner awr/awr am bunt i drigolion lleol neu ymwelwyr a fuasai eisiau cerdded eu ci neu fynd i nofio ond y buasai'n rhywbeth i'r Uned Parcio ei ystyried – copïwyd Gwenan Huws Tomos i'r e-bost. Penderfynwyd ateb drwy fynegi siomedigaeth am hyn a gofyn a fwriedir digolledu meysydd carafannau drwy ostwng eu trethi busnes pan fydd carafannau ac ati'n aros yno dros nos am £7.50.

c) **Parcio yn Llanengan**
Atebodd Dylan Wynn Jones y gallai'r Cyngor osod llinellau melyn dwbl o amgylch y gyffordd ond, byddai rhaid ystyried pa fath o effaith a gâi hyn ar y tai cyfagos.

Deallwyd y gofynnodd yr Aelod Lleol i berchnogion y tai symud y cerrig/potiau a osodont o'u blaenau wrth egluro'r sefyllfa. Nid ymatebodd i'r cwestiwn beth yw arwyddocád y llinell wen ger Meillion, gan yr anwybyddir hi'n barhaus. Trosglwyddodd y mater o faniau'n parcio ar ran o'r ffordd sydd â llinellau melyn dwbl ar y bont i'r Uned Parcio, gan ei fod yn fater gorfodaeth.

ch) **Gordyfiant ger Ysgubor Wen, Lôn Sarn Bach, Aber-soch**
Anfonodd yr Adran Briffyrdd lythyr at berchennog Fron Olau, Lôn Sarn Bach, yn tynnu sylw at gyflwr ei derfyn.

d) **Blwch Post Llangian**
Deallwyd y gosodir yr uchod o flaen Neuadd yr Eglwys cyn bo hir – disgwylir caniatâd swyddogol o bencadlys Swyddfa'r Post.

dd) **Rhaglen Waith mis Tachwedd**
Rheiliau diogelwch *visirail* a draeniad ger Y Fach, Aber-soch.

e) **Torri Gwair Ochr Ffordd**
Adroddodd y Clerc y darllenodd gofnod yng nghofnodion mis Mehefin Pwyllgor Ardal Arfon Dwyfor y daeth Cyngor Cymuned Pentir i gytundeb â Chyngor Gwynedd dorri'r gwair dair gwaith y flwyddyn yn ychwanegol ac y tala am hyn. Gwnaed hyn oherwydd y trafferthion a fu yn y Gwanwyn pan ddywedwyd mai dwywaith y flwyddyn y gwneid hynny – gwneir pedair gwaith erbyn hyn. Gellid ystyried hyn ar gyfer y llwybr troed rhwng Sarn Bach ac Aber-soch.

9. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

a) ***Torri'r Llwybrau 2017***
Cysylltwyd â Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, i ofyn a allai ddod i gyfarfod â ni – atebodd na chred a allai fod o gymorth i'r hyn mae'r Cyngor ei eisiau ond, gellir anfon 'blas' o hynny ato. Awgryma bod gwerth mawr i'r Cyngor ailgategoreiddio llwybrau'r gymuned er mwyn canolbwyntio ar y rhai sydd wir angen eu cynnal ond, mae'n broses anodd oherwydd ei fod yn eithaf goddrychol (*subjective)* i bobl leol. Penderfynwyd cysylltu ag o eto.

b) ***Mynediad Ceffylau Gogledd Cymru***
Llythyr oddi wrth y Swyddog Cyfathrebu yn gofyn a fuasai'r Cyngor yn gefnogol i greu cysylltiadau i wella safon ffyrdd, llwybrau ceffylau a chilffyrdd yn y gymuned. Fe'i anfonwyd at DWO am sylwadau ac ymatebodd drwy ddweud y cred mai ceisio codi proffil pobl ceffylau yw'r bwriad ac wrth gael llwybrau ceffyl ar agor mae'n rhoi cyfle i feicwyr a cherddwyr hefyd – mae'n gwneud synnwyr gwella, uwchraddio neu greu linc rhwng llwybrau a lonydd distaw i annog eu defnydd.

10. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**

i) ***Cofrestriad Meysydd Tref a Phentref***
Ymgynghoriad sy'n ceisio barn ynglŷn â newidiadau arfaethedig i'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â'r uchod – angen sylwadau erbyn Chwefror yr ail, 2018.

ii) ***Dulliau Gweithredu Lleol ar gyfer Lleihau Tlodi – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus***
Ymgynghoriad ar ymchwiliad i'r uchod.

iii) ***Bwletin mis Hydref***
Argraffwyd 'Paratoi ar gyfer Archwiliad 2017 – 2018', 'Esbonio'r Gyfraith Diogelu Data i Gynghorau Cymuned a Thref' ac adroddiad 'Diwrnod Cymunedol Cricieth' er gwybodaeth.

iv) ***Cynllun i Annog Cydweithio Agosach â Llywodraeth Leol***
Edrycha'r Cynllun Llywodraeth Leol ar sut bydd Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol a'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach yn cyflenwi gwasanaeth yn unol ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

v) ***Hyfforddiant mis Tachwedd***
Rhestr o'r modiwlau a gynhelir yn ystod y mis.

vi) ***Adolygiad o'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref – Mae Angen eich Help!***
Derbyniwyd manylion saith digwyddiad ymgynghori gan ULlC er mwyn cael ymateb a thystiolaeth llawn a manwl i'r uchod – dim ond dau a drefnwyd yn y Gogledd, un yng Nghaernarfon ddydd Mawrth, Tachwedd 28ain a'r llall yn Y Waun drannoeth, y ddau rhwng dau a phedwar o'r gloch. Cysylltwyd i fynegi siomedigaeth yn hyn oherwydd cynhelir yr un yng Nghaernarfon ar ddiwrnod olaf y Ffair Aeaf, a dylid fod wedi ystyried yr effeithia ar sawl un yng nghefn gwlad ac, o ran yr amseroedd, ar y rhai sy'n gweithio – ni dderbyniwyd ymateb hyd yma.

b) **Cyng. Dewi Wyn Roberts – Ymddiriedolaeth Florence Guest Morgan**
Copi, er gwybodaeth, o ohebiaeth rhyngddo â'r Adrannau Addysg a Chyllid parthed yr uchod.

c) **Clwb Moduro Harlech a'r Cylch Cyf. – Rali Goffa James Trenholme, Tachwedd 11eg – 12fed**
Llythyr yn hysbysu'r uchod.

ch) **Comisiwn Ffiniau i Gymru – Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru – Cynigion Diwygiedig**
Ymgynghoriad ar yr uchod – angen sylwadau erbyn Rhagfyr 11eg.

d) **Tesni Roberts, Cysylltwr Cymunedol, Gwasanaeth Cymdeithasol – Ymchwil Cymuned Llanengan**
E-bost oddi wrth yr uchod yn cyflwyno'i hun fel y prif gyswllt rhwng Tîm Ardal Integredig a chymunedau lleol Llŷn; gofynna am gael rhywfaint o wybodaeth am y gweithgareddau a'r grwpiau sydd ar gael yn y gymuned; penderfynwyd gofyn am fwy o fanylion.

11. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO**

C17/0159/39/LL	Dymchwel tŷ presennol ac adeiladu un tri llawr yn ei le – The Shanty, Pen Bennar, Aber-soch **– Gwrthodwyd**
C17/0473/39/LL	Adeiladu dau estyniad ac addasiadau mewnol – Llwyndu, Lôn Sarn Bach, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C17/0796/39/LL	Estyniad cefn a feranda – Pen y Gors, Lôn Golff, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**

C17/0863/39/LL	Dymchwel lolfa wydr 'lean to' ac adeiladu estyniad unllawr – Hafan Geltaidd, 1 Ger y Foel, Mynytho **– Caniatawyd ag amodau**
C17/0878/39/LL	Ailgyflwyniad o gais a ganiatawyd dan Ganiatâd Rhif C14/0640/39/LL a adeiladwyd eisoes ar gyfer cywiro cyfeiriad yr eiddo – Fflat 2, Penarwel, Lôn Golff, Aber-soch **– Caniatawyd yn ddi-amodol**
C17/0923/39/LL	Diwygiad i gais C17/0443/39/LL er codi uchder crib y to ar yr adeilad gwreiddiol o 40cm ar y lefel to is a 20cm ar y lefel to uchaf (gweddill y datblygiad yn aros fel y cais gwreiddiol – Pen y Cei, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**

12. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau

Cadarnhawyd talu cyflog mis Tachwedd (Rh/S 002108) y Clerc, ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Swyddfa Archwilio Cymru – £171.45 (Rh/S 002105 – Archwiliad Ariannol 2016 – 2017)
b) Jewson Ltd. – £153.65 (Rh/S 002106 – Tair Sedd Toiled)
c) Bacstal Pac – £96.00 (Rh/S 002107 – Gweinyddu Cyflog y Clerc)
ch) npower – £63.00 (D/U – Trydan Toiledau Lôn Traeth)
d) J.A. Pozzi – £1800.00 (Rh/S 002109 – Torri Gwellt Cae Chwarae Aber-soch)
dd) Richard W. Griffith – £1225.00 (Rh/S 002110 – Torri Gwellt ar y Bont a Lôn Golff, Aber-soch a Llwybrau Bwlchtocyn, Cilan, Machros a Sarn Bach)
e) Casglwr Trethi – £7.16 (Rh/S 002112 – Talu Wrth Ennill)
f) Talafon Cyf. – £125.00 (S/O – Cyfraniad at Drydan y Camerâu Cylch Cyfyng)

Derbyniadau

a) Toiledau – £44.50 (Tâl Mynediad – £9.00, £12.80, £16.50 a £6.20)
b) A.R. Skitt – £100.00 (Rhent Pen y Mynydd)

13. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Rhagfyr 13eg, 2017 am saith o'r gloch